

PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 9 MAI 2019

Yn Cynghorydd Howells(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Henshaw, Gordon, Gavin Hill-John, Parkhill,
Robson a/ac Stubbs

73 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Sattar.

74 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw rai.

75 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9fed Ebrill 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

76 : AWDURDOD HARBWR CAERDYDD: ADOLYGIAD LLYWODRAETH CYMRU

Dyweddodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg o'r adolygiad diweddaraf o drefniadau'r Awdurdod Harbwr a throsglwyddo unrhyw sylwadau ac argymhellion gan y Pwyllgor i'r Cabinet.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury (Aelod Cabinet – Diwylliant a Hamdden), Neil Hanratty (Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd) a Jon Maidment (Rheolwr Gweithredol – Awdurdod Harbwr Caerdydd) yn ogystal â Howel Jones, o bartneriaethau lleol, a gynhaliodd yr adolygiad. Mae Mark Williams o Lywodraeth Cymru wedi ymddiheuro ac wedi dweud y bydd yn sicrhau ei fod ar gael os bydd y Pwyllgor yn ei hoffi i fod yn bresennol mewn cyfarfod arall, a'i fod yn hapus i ymateb i unrhyw gwestiynau ysgrifenedig yn y cyfamser.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bradbury i wneud datganiad lle dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi cychwyn y gwaith hwn er mwyn penderfynu a yw'r arian sy'n cael ei wario ar Awdurdod Harbwr Caerdydd yn effeithlon. Barn Cyngor Caerdydd yw ei fod yn effeithlon, y cydymffurfir â'r canllawiau statudol, ac y canfyddir arbedion lle y bo'n bosibl ac y cyflawnir dyletswyddau statudol. Mae Cyngor Caerdydd wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru drwy gydol y broses.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan Howel Jones ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau pam bod arian wedi'i newid o 3 blynedd i bob blwyddyn a dywedwyd bod estyniadau blynyddol yn cael eu rhoi nes i'r adolygiad gael ei gynnal. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai am gael setliad 3 blynedd bob tro.

Gofynnodd yr Aelodau na fyddai unrhyw newid i'r llwybr pysgod a gofynnwyd a ystyriwyd rhoi'r gorau i'r morglawdd yn gyfan gwbl. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod yr adolygiad yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod Caerdydd yn bodloni gofynion statudol y Ddeddf; gofynnodd Llywodraeth Cymru i bartneriaethau lleol gynnal yr adolygiad er mwyn sicrhau bod Caerdydd yn cyflawni ei dyletswyddau ac yn rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr. Byddai'r materion amgylcheddol ehangach yn ei gwneud yn ofynnol i San Steffan a Llywodraeth Cymru ddiddymu'r Ddeddf ac nid yw hynny o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd unrhyw awgrym y dylid rhoi'r gorau i'r llwybr pysgod, ond mae'r wybodaeth a gasglwyd yn dangos adegau pan na ddefnyddir y llwybr pysgod, felly er mwyn arbed ynni, gellid gweithredu'r llwybr pysgod yn fwy deallus.

Gofynnodd yr Aelodau ai rhan o gylch gwaith yr adolygiad oedd siarad â defnyddwyr yr awdurdod harbwr ynghylch creu incwm, buddiannau busnes a chostau. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oeddent wedi trafod hyn yn yr adolygiad ond bod eu hadolygiadau blaenorol wedi cael eu hystyried.

Cyfeiriodd yr Aelodau at gynlluniau Asedau ar gyfer y Bae a nodwyd bod yr Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen a gynhaliwyd yn 2010 wedi sôn am y Dociau Sych; gofynnodd yr Aelodau a oedd hyn yn cael ei ystyried yn ased. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod, a'i bod yn faes arbenigol, a'i bod yn bwysig pennu'r ffordd orau o ddefnyddio'r Dociau Sych.

Nododd yr Aelodau mai dim ond £40 mil oedd y gronfa wrth gefn a gofynnwyd a oedd unrhyw werth mewn peidio â chael cronfa wrth gefn ac ailystyried y cytundeb fel bod modd rhannu'r rhwymedigaeth os bydd rhywbeth yn digwydd. Dywedwyd wrth yr Aelodau y gallai hyn fod yn rhywbeth sy'n digwydd yn y dyfodol.

Cyfeiriodd Aelodau at drosglwyddo cyllid i Gyngor Caerdydd a gofynnwyd a oedd risgiau'n gysylltiedig â hyn. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod manteision ac anfanteision; byddai rheoli'r cynllun rheoli asedau yn ddefnyddiol ond byddai pryderon, byddai angen trosglwyddo'r grant am nifer o flynyddoedd a bod dim brigdorri yn digwydd bob blwyddyn. Bu toriadau o 66.2% ac roedd Caerdydd yn dal i fodloni ei gofynion statudol o dan bwysau ariannol eithafol. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai wedi hoffi gweld gwas sifil o Lywodraeth Cymru yn y cyfarfod i gael rhai atebion o ran ble mae'r cyllid yn sefyll. Eglurwyd mai'r rheswm nad oedd cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru yn bresennol oedd nad oedd yr adroddiad yn derfynol eto. Ychwanegodd swyddogion fod adnewyddu asedau yn faes critigol, bod y seilwaith yn unigryw ond ei fod yn heneiddio, bod angen ei asesu a'i fod yn llywio'r rhaglen gyfalaf wrth symud ymlaen.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd arolwg cyflwr wedi'i gynnal ac fe'i cynghorwyd bod un wedi'i wneud yn fewnol ond bod angen cymorth allanol i helpu i ddatblygu briff i fynd i'r farchnad.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw waith wedi'i wneud ar gynnwys treuliau megis cytundebau lefel gwasanaeth ac a oedd unrhyw feincnodau wedi'u gwneud ar gytundebau lefel gwasanaeth. Dywedodd swyddogion nad oedd unrhyw feincnodi wedi'i wneud, ond roedd lefel o ddiwydrwydd dyladwy y byddai swyddogion yn edrych arno h.y. Glanhau dros nifer o adrannau.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y DPA ocsigen toddedig, gan gydnabod bod 100% yn amhosibl ei gyflawni a gofynnodd beth fyddai'n gyraeddadwy a pha arbedion y gellid eu gwneud. Dywedodd swyddogion nad oedd hyn yn glir ar y pryd a bod angen trafod hyn yn fanwl a phennu lefel gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Gofynnodd yr Aelodau os yw'r lefel yn gostwng, yna gofynnir i'r gweithredwyr am fewnbwn hefyd.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd awydd i drosglwyddo'r cyllid, dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n dibynnu ar sut y byddai'n cael ei ariannu, na fyddai am gael brwydr bob blwyddyn, y byddai manteision o ran adnewyddu asedau ond bod angen egluro'r trefniadau ariannu. Ychwanegodd ei fod yn gobeithio bod yr adroddiad yn dangos bod Caerdydd yn darparu gwasanaethau rhagorol a bod angen cydnabod hyn.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd modd cael mwy o weithgareddau chwaraeon a dŵr yn y Bae. Dywedodd swyddogion eu bod ar hyn o bryd yn edrych ar gyfleoedd i gynyddu nifer yr ymwelwyr ar gyfer yr haf hwn ac amrywio'r arlwy.

Holodd yr Aelodau am yr amserlen ar gyfer cytuno ar yr adroddiad ac fe'u cynghorwyd nad oedd llinell amser benodol, ond byddai'r adroddiad yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl; roedd angen gwybodaeth derfynol, byddai gwiriadau'n cael eu cynnal ar gywirdeb ffeithiol a byddai'r adroddiad terfynol yn barod ymhen ychydig wythnosau.

PENDERFYNWYD: y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle byddai'r ffordd ymlaen yn cael ei thrafod ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

77 : ADFYWIO HEOL DUMBALLS: DIWEDDARIAD

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y byddent yn cofio'r diweddariad ar gynllun adfywio Heol Dumballs a gawsant ym mis Hydref 2018, gyda chyflwyniad gan Vastint yn mynd â hwy drwy eu syniadau Meistr cynllunio cychwynol. Mae'r adroddiad hwn i'r Cabinet yn nodi'r camau nesaf a'r amserlen arfaethedig ac yn ceisio awdurdod dirprwyedig o ran trafodaethau i gytuno ar benawdau telerau ar gyfer gwaredu tir y Cyngor.

Croesawodd y Cadeirydd Neil Hanratty (Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd) a Chris Barnett (Rheolwr y Prosiect) i'r cyfarfod. Roedd y Cynghorydd Goodway wedi ymddiheuro am y cyfarfod.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Neil Hanratty wneud datganiad lle dywedodd mai adroddiad paratoi'r ffordd oedd hwn, nid oedd unrhyw benderfyniad arwyddocaol wedi'i wneud eto, ac roedd hwn yn ddiweddariad i'r adroddiad blaenorol gan Vastint. Roedd y safle bellach tua 40 erw, roedd yn safle tir llwyd lled-adfeiliedig ac roedd yn safle strategol yn y cynllun datblygu lleol ac yn bwysig i'r Cyngor o ran ei sefyllfa a'r gallu i gysylltu canol y ddinas a'r Bae. Y bwriad oedd darparu pentref trefol defnydd cymysg gan gynnwys 450 o unedau ym mherchnogaeth y cyngor wedi'u dosbarthu ar draws y safle. Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymrwymiadau i geisio awdurdod i gytuno ar benawdau telerau. Roedd rhai heriau fel gwasanaeth tir parhaus, roedd angen adleoli un busnes o hyd a rhai materion teitl yn parhau gyda'r datblygwr. O ran yr amserlen, roedd hyn wedi'i drefnu ar gyfer Cynllunio yn 2020 gyda'r gwaith adeiladu yn dechrau yn haf 2021.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Nododd yr Aelodau fod y ddirprwyaeth yn yr adroddiad i'r Adran Datblygu Economaidd a gofynnwyd a oedd cyfle i gynnwys yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau yn y broses o wneud penderfyniadau. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cyngor cyfreithiol wedi nodi mai'r cam hwn yn y broses oedd i'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, ac yn ddiweddarach bydd i'r Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd yn dal yn fwriad cael unedau manau gwaith ar gyfer y diwydiannau creadigol ac fe'u cynghorwyd mai defnydd cymysg oedd y bwriad, a oedd yn cael ei arwain gan gartrefi. Byddai cyfleoedd i lawer o ddefnydd, yn enwedig ar lefel y llawr gwaelod, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth, diwylliant, hamdden a swyddfa. Roedd angen bodloni dyheadau'r Cynllun Datblygu Lleol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at yr un busnes y mae angen ei ail-leoli a gofynnwyd am ragor o wybodaeth. Dywedodd swyddogion mai Biffa oedd y busnes a bod safle wedi'i nodi yn Ffordd Lamby ond roedd problemau gyda'r costau a'r hawliau 'tad-cu' ar y safle a oedd yn cael eu gweithio arnynt ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd yr Aelodau at gostau rheoli tir gwag ac ati a gofynnwyd sut yr oedd y rhain yn cael eu bodloni. Cynghorodd swyddogion fod yr holl gostau yn cael eu talu gan Vastint ac nad oedd unrhyw alw ar gyllideb y Cyngor am ddefnydd y tir yn y cyfamser. Mae Vastint eisiau contract llawn a theitl llawn ar yr holl ardal.

PENDERFYNWYD: y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle byddai'r ffordd ymlaen yn cael ei thrafod ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

78 : YMATEB Y CABINET: GWEITHDAI AC YMCHWILIAD ARLOESI

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn galluogi'r Pwyllgor i dderbyn ymateb y Cabinet, y cytunwyd arno yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, i'r Ymchwiliad i Weithdai ac Adeiladau Arloesedd y Cyngor. Allan o'r 9 argymhelliad, mae'r Cabinet wedi cytuno i 6 argymhelliad ac wedi cytuno'n rhannol i 3.

Croesawodd y Cadeirydd Neil Hanratty (Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd) a Jon Day (Rheolwr Gweithredol - Polisi Economaidd) i'r cyfarfod.

Dywedodd swyddogion wrth yr Aelodau fod hyd yn oed yr argymhellion hynny a dderbyniwyd yn rhannol yn cael eu croesawu'n fawr, dim ond mater o gafeatau oedd nawr yn y modd y cynhelir y rhain yn enwedig gyda'r sector cyhoeddus.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Roedd aelodau o'r farn bod angen i'r Cyngor benderfynu beth yw ei rôl o ran meintiau lleoedd, ar hyn o bryd ceir amrywiaeth o unedau llai a gallai'r strategaeth wella rhai a gwaredu ar rai eraill. Roedd yr Aelodau'n meddwl tybed ai rôl y Cyngor yw eu cael i mewn i unedau canolig neu hyd yn oed unedau mawr yn y sector preifat, neu a oes gan y Cyngor stoc fach o hynny ac nad oedd yr ymateb yn glir ynghylch safbwynt y Cyngor ar hyn. Cynghorodd swyddogion y byddai cymysgedd bob amser, ni fyddai'r

Cyngor byth yn gallu bod yn unig ddarparwr y gofod; roedd yr adroddiad wedi edrych ar CBTC a rôl arloesi a darparu lle ar gyfer gweithdai bach o fewn y cyd-destun hwnnw. Mae yna fannau Tyfu Ymlaen ac yn Willowbrook mae yna unedau sylweddol fwy hefyd. Gallai fod mwy bob amser a bydd adolygiad yn edrych ar ystâd y gweithdai. Roedd amrywiaeth o opsiynau posibl a gwahanol fathau yn cael eu hystyried.

Cyfeiriodd yr Aelodau at argymhelliad 7 gan nodi bod angen cyngor a gwybodaeth leol fanwl ar bobl a gofynnwyd a oes gan Gyngor Caerdydd yr adnoddau i ddarparu hyn. Dywedodd swyddogion fod toriadau sylweddol wedi bod yn y gyllideb mentrau a fyddai'n cynnwys cyngor busnes. Ceir rôl weithgar o hyd gan Ddatblygu Economaidd ar yr ochr eiddo, ond ar gyfer cyngor busnes penodol, prif rôl y Cyngor fyddai cyfeirio, gan fod y rhan fwyaf o'r cyngor ar gael gan eraill naill ai'n uniongyrchol neu drwy grantiau.

PENDERFYNWYD: nodi ymateb y Cabinet a derbyn adroddiad cynnydd wrth weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt ymhen 12 mis.

79 : ADRODDIAD BLYNYDDOL

Hysbyswyd yr Aelodau bod yr adroddiad hwn yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo Adroddiad Blynyddol drafft 2018/19 y Pwyllgor, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor.

Mae'r adroddiad yn rhestru'r holl eitemau a ystyriwyd o fis Mehefin 2018 – Mai 2019, ac yn rhoi enghreifftiau o'r gwahanol fathau o waith craffu a wnaed. Mae'r adroddiad yn gorffen drwy osod allan y pynciau y mae'r Pwyllgor wedi nodi y gallai pwyllgor craffu yn y dyfodol ddymuno eu cynnwys yn ei raglen waith 2019-20.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Cynllun Blynyddol drafft ac awgrymu unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

Nododd yr Aelodau y byddai holl gyfarfodydd y dyfodol yn cael eu gwe-ddarlledu, ac felly gellid cynnwys ystadegau ar ganlyniadau gwe-ddarlledu yn yr Adroddiad Blynyddol.

Roedd Aelodau o'r farn y gellid cyfeirio at Asesiadau Effaith Amgylcheddol a'r Argyfwng Newid yn yr Hinsawdd a gytunwyd yn ddiweddar yn yr adroddiad a sut y mae gwaith y Pwyllgor yn 2018/19 wedi cyfeirio at yr angen am ddatblygu cynaliadwy. Dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol yn edrych ar fater Argyfwng Newid yn yr Hinsawdd a gellir rhannu'r canfyddiadau â'r Pwyllgor. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hyn yn rhywbeth y gallent hwy ei gadw mewn cof wrth graffu ar faterion fel y byddent yn ymwneud â chydreddoldeb.

PENDERFYNWYD: cymeradwyo'r adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor, a drefnwyd ar gyfer mis Mehefin 2019.

80 : ADRODDIAD GOHEBIAETH

Nodwyd.

81 : EITEMAU BRYYS (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

82 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant ddydd Iau 6^{ed} Mehefin 2019 am 4.30pm, Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.50 pm